Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher yr 28ain o Ebrill 2010 am 7.30yh.

Presennol: Y Dirprwy Faer y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Hugh Towns
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Ieuan Gwyn Jones, y Cyng. Richard Wallace.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Adroddodd y SCCH Roger Anthony y cafwyd tri achos o ladrata yn ystod y mis, yn cynnwys lladrata o siop leol, beic a phedair olwyn aloi. Cafwyd peth ymddygiad aflonyddgar yn gyhoeddus ar noson Gŵyl y Banc, a arweiniodd at 4 yn cael eu harestio. O ganlyniad, cafodd 3 eu gwahardd o Dafarndai yn Llandeilo am dri mis a chafodd 1 ei wahardd am fis.
Yn dilyn cwestiwn gan y Cyng. Edward Thomas, dywedodd y SCCH Anthony y byddai'r Heddlu'n argymell gosod conau ar hyd y bont ar adegau pan fod y mart yn cael ei gynnal.

Cof 16 /Ebrill /10 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai'r Swyddog Cefnffyrdd yn archwilio cynllun i addasu'r palmant tu allan i Swyddfa'r Post, a fyddai'n rhoi mynediad yn haws i bobl anabl. Byddai Swyddog o CSG yn cysylltu â'r Swyddog Technegol mewn perthynas â Chloc yr Eglwys. Byddai Rheolwr Llwybrau Troed CSG yn cwrdd â'r CS Jones ar y 5ed o Fai am 11yb, i edrych ar fynediad i'r llwybr troed yn Ysgubor Abad. Mae'r biniau sbwriel a geisiwyd gan y Cyngor wedi cael eu derbyn erbyn hyn.
Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyng. Edward Thomas, dywedodd y CS Jones y byddai'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ymdrin â'r mater mewn perthynas â Debbie's diner, ond byddai'n rhaid iddynt i adael un mis i apelio yn erbyn hysbysiadau cau.

Cof 17/ Ebrill / 10 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 24ain o Fawrth, 2010, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 14eg o Ebrill 2010, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 14eg o Ebrill 2010, fel cofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, gyda'r diwygiad canlynol -

Cof 10/ Ebrill/10 Bil i'w dalu - Ychwanegu
Apêl Maenor Gelli Aur (gwobrau i'r sioe gŵn) £80 .
Cynigwyd gan y Cyng. Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 18 /Ebrill / 10 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol
Parthed â Cof 311/Maw/10 Dywedodd y Cyng. Roy Davies y disgwylir penderfyniad yn fuan mewn perthynas â chynnig Tywi'r Oesoedd am gerflun. Byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud o ganlyniad i ymarfer ymgynghori cyhoeddus.
Parthed â Cof 313/ Maw/10 Roedd y Cyng. Roy Davies wedi astudio amryw o'r cynlluniau grant sydd ar gael ond, yn anffodus, nid oedd y Cyngor yn gymwys i nawdd i gyflawni gwelliannau i Bont y Brenin, oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar y Bont. Ni fyddai taflenni treftadaeth Llwybr y Dref yn gymwys am grant ychwaith, oherwydd y byddai'n well gan y corff dyfarnu ddeunydd digidol a ellid ei ddefnyddio ar gyfrwng electronig.
Parthed â Cof 319/Maw/10 Dywedodd y Cyng. Edward Thomas nad oedd gwiriadau iechyd a diogelwch wedi cael eu cynnal eto ar amodau gweithio gartref ar gyfer Swyddogion y Cyngor.

Cof 19/ Ebrill / 10 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb
Awgrymodd Kevin Phillips, Swyddog Cynllunio CSG, y 5ed o Fai am 3yh i gynnal cyfarfod safle i ystyried cais cynllunio i adeiladu tŷ yn gyfagos i 18, Stryd Thomas. Byddai'r Clerc yn cadarnhau ac yn hysbysu'r Aelodau.

1. E-byst a dderbyniwyd mewn perthynas ag adroddiadau'r wasg am gynnig Tywi'r Oesoedd i osod cerflun cyhoeddus. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn paratoi llythyr i'r wasg i esbonio'r ffeithiau.
2. Mr Mike Williams, Postfeistr Llandeilo, yn amlinellu'r problemau mynediad i bobl anabl i Swyddfa'r Post. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei ymdrin pan fyddai Roger Williams o'r TRA wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer gwella. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
3. Gwerthusiad Shelter Cymru o becynnau gwybodaeth am Gefn gwlad. Byddai'r Cyng. Ros Bellamy yn ei gwblhau.

Cof 20 / Ebr/ 10 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Diwrnod y Lluoedd Arfog. –26ain o Fehefin 2010. Nodwyd.
2. Y Gymdeithas Gymunedol mewn perthynas â rhodd tuag at ddigwyddiadau ym Mharc Penlan. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu i ddiolch i'r Gymdeithas.

Cof 21 / Ebr /10 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.
   CGGC (taliad Ebrill) £ 24.54
   Pasiwyd yr eitem i'w dalu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Adroddiad Ariannol Diwedd Blwyddyn.
   Rhoddodd y Swyddog Cyllid ei adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Dywedodd Mr Plummer fod y Cyngor wedi gwneud penderfyniadau clodwiw, a oedd yn golygu bod y gyllideb yn cael ei rheoli'n

llawer mwy llym. Gwariwyd y gwariant mwyaf ar gynnal a chadw Neuadd y Sir, gan gofio bod yn rhaid i'r amodau fod yn dderbyniol i'r prydleswyr. Gobeithir y bydd y gwariant hwn dipyn yn llai dros y blynyddoedd nesaf. Byddai'r ddogfen Archwilio yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 26ain o Fai 2010.

Cof 94 / Mehefin / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor ar yr holl faterion technegol. Dywedodd Mr Davies fod y twll mawr yn rhwydwaith ochr Pont y Brenin wedi cael ei atgyweirio.
Roedd wedi trefnu i faneri i gael eu codi ar Stryd Rhosmaen yn ystod tymor yr Haf.
Roedd Mr Davies wedi trefnu i strimio Parc Penlan, ar gais y Faeres. Byddai hyn yn costio £100.

Cof 95/ Mehefin / 09 Materion Trawsgludiaeth a Phriffyrdd i'w trafod
Gofynnodd y Cyng. Dawn Wallace a oedd y cyfarfod safle yn Adeiladau'r Banc wedi cael ei drefnu. Dywedodd y Clerc y byddai'r holl awdurdodau a wahoddwyd yn bresennol yn y cyfarfod ar y 6ed o Orffennaf.

Cof 96 / Mehefin / 09 Yr Ardd Gymunedol
Gwnaethpwyd penderfyniad p'un ai dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â'r gwaith o dorri'r coed ar y rhandir neu roi'r rhandir ar werth. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy y dylid rhoi'r ardd ar werth a gwahodd cynigion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Cynigwyd diwygiad i gadw'r ardd gan y Cyng. Edward Thomas, eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Cafodd y diwygiad ei gario gan 5 pleidlais i 4 pleidlais. Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod is-grŵp yn cael ei sefydlu i ystyried yr opsiynau sy'n agored i'r Cyngor mewn perthynas â'r Ardd. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Byddai'r canlynol yn gwasanaethu ar yr is-grŵp - Y Cyng. Chris parish, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies a'r Cyng. Colin Jenkins.

Cof 97 / Mehefin / 09 Yr Agorfa Gwybodaeth i Dwristiaid
Dywedwyd wrth y Cyngor bod ateb wedi cael ei anfon i Mrs Hillier. Roedd y Clerc wedi gofyn am eglurhad oddi wrth adran gyfreithiol CSG.

Cof 98 / Mehefin/ 09 Adroddiad y Faeres.
Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis.
Byddai'r Dirprwy Faer y Cyng.Chris Parish yn mynychu digwyddiadau ym mis Gorffennaf tra bod y Faeres ar ei gwyliau.
Dywedodd y Faeres y byddai'r Cyng. Ros Bellamy a'r Cyng. Fran Murphy yn cwrdd gyda'r arolygwyr ar gyfer Gwobr Calor Gas ar y 9fed o Orffennaf. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyng. Ros Bellamy yn cael cyllideb o £30 i dalu am luniaeth. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 99 / Mehefin / 09 Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Diolchodd y Cyng. Charlotte Leadbeater i bawb am eu cymorth gyda'r digwyddiad 'Revels in the Park' a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fehefin. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus

iawn, gyda'r elusennau a oedd yn bresennol yn codi arian oedd ei angen yn fawr. Codwyd cyfanswm o £132.50 mewn bwced ar y ffordd, er budd elusennau'r Faeres. Gofynnodd y Faeres am ganiatâd i brynu disg ac arni ffotograffau a dynnwyd yn ystod y diwrnod am bris o £45. Cymeradwywyd ei chais.
Awgrymodd y Cyng. Edward Thomas y dylai'r is-grŵp gwrdd cyn gynted ag sy'n bosib. Cytunwyd y byddai hyn ar y 14eg o Orffennaf am 6yh.

Cof 100 /Mehefin / 09 Adroddiadau Eraill
Cafodd yr holl adroddiadau a oedd yn weddill eu gohirio nes y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Cof 101 /Mehefin /09 Eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Dywedodd y Cyng. Julia Jones y byddai'r Arglwydd Dynevor yn mynychu cyngerdd agoriadol Gŵyl Gerdd Llandeilo ar yr 11eg o Orffennaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35yh